# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2025

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dave Holland
- Georgia Taylor
- Helen Taylor
- Jessica Williams
- John Richards

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Sian Bowsley – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch Reolwr Busnes
- Christie O'Keefe – Rheolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi
- Jonathan Davies – Pennaeth Strategaeth
- Sarah Aza – Pennaeth Gwaith Gweithredu

**Cyflwynwyr:**

- Delyth Murray-Lines, Pennaeth Polisi Hylendid yr ASB yng Nghymru
- Neil Arbery, Pennaeth y Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol yr ASB yng Nghymru
- James McCulloch, Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC)
- Simon Williams, Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC)
- Jacqui Thomas, Cyngor Sir Powys
- Gareth Walters, Cyngor Sir Fynwy

# 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan John Williams ac Ifan Lloyd. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod Gorffennaf 2025.

# 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

# 3. Bwyd Anifeiliaid

3.1 **Delyth Murray-Lines, Pennaeth Polisi Hylendid yr ASB yng Nghymru** – Roedd y cyflwyniad yn amlinellu cyfrifoldeb yr ASB dros ddiogelwch a safonau bwyd anifeiliaid a'i bwysigrwydd fel rhan hanfodol o'r gadwyn fwyd ac economi amaethyddol Cymru. Esboniodd Delyth fod bwyd anifeiliaid diogel, sy'n cael ei reoleiddio'n briodol, y gellir ei olrhain, yn sail i iechyd anifeiliaid a phobl, a nododd rôl yr ASB fel yr Awdurdod Cymwys Canolog ledled Cymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon. Gwnaeth hi grynhoi'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu hylendid bwyd, marchnata, labelu, olrheiniadwyedd, ychwanegion, a rheolaethau swyddogol, gan dynnu sylw at sut mae'r rheoliadau hyn yn diogelu diogelwch bwyd, ac yn diogelu'r amgylchedd. Roedd y cyflwyniad hefyd yn egluro sut mae'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu ar draws y llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol fel partneriaid gweithredu. Daeth y cyflwyniad i ben gyda throsolwg o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg – fel pryfed mewn bwyd anifeiliaid a deunyddiau bwyd anifeiliaid a wneir drwy feithrin celloedd – gan ddisgrifio cyfyngiadau rheoleiddio, ystyriaethau polisi trawslywodraethol, a'r angen am oruchwyliaeth gadarn i sicrhau diogelwch wrth i'r diwydiant esblygu. Trafododd aelodau'r pwyllgor a allai gwastraff bwyd diogel wedi'i drin chwarae rhan fwy ym maes ffermio pryfed yn y dyfodol.

3.2 **James McCulloch, AIC** – Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith yr AIC, sef y brif gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli diwydiant amaeth-gyflenwi'r DU. Gwnaeth James amlinellu strwythur, arweinyddiaeth, ac egwyddorion arweiniol yr AIC, sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd, cynhyrchiant, a gwella'r amgylchedd ar draws amaethyddiaeth. Esboniodd sut mae'r AIC yn cefnogi ffermwyr a'r gadwyn fwyd ehangach drwy ddarparu dylanwad polisi, canllawiau technegol, a chynlluniau

sicrwydd masnach, sy'n helpu i gynnal safonau uchel o ran bwyd anifeiliaid a diogelwch bwyd. Roedd y cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd mewnbynnau amaeth-gyflenwi, fel deunyddiau bwyd anifeiliaid ac ychwanegion – a sut gall digwyddiadau byd-eang fel pandemig, gwrthdaro, a newid yn yr hinsawdd darfu ar gadwyni cyflenwi. Roedd ystadegau allweddol yn dangos pwysigrwydd rôl yr AIC, gan gynnwys ei aelodaeth helaeth, ei ddarpariaeth yn y farchnad, a'r miloedd o gynghorwyr fferm proffesiynol sy'n gweithredu ledled y DU. Soniodd James am flaenoriaethau polisi'r AIC yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar bolisi amaethyddol, amcanion sero net, targedau ansawdd dŵr, a chynlluniau cymorth i ffermydd yn y dyfodol. Amlinellodd gyfleoedd polisi cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel gwella argaeledd deunyddiau bwyd anifeiliaid, datblygu proteinau newydd, diwygio rheoliadau, a chryfhau sectorau eplesu ac ychwanegion bwyd y DU. Rhoddodd James drosolwg hefyd o sut mae'r AIC yn rheoli risg yn y gadwyn gyflenwi bwyd anifeiliaid a'r mathau o ddatblygiadau a allai gefnogi cynhyrchu bwyd anifeiliaid mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

3.3 **Neil Arbery, Pennaeth y Bartneriaethau ag Awdurdodau Lleol** – Roedd y cyflwyniad yn manylu ar sut mae archwiliadau a gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid yn cael eu cyflawni yng Nghymru, gan dynnu sylw at rolau'r ASB, awdurdodau lleol, a phartneriaid yn y diwydiant. Disgrifiodd Neil yr hanes y tu ôl i'r system bresennol, gan nodi bod gwaith archwilio blaenorol wedi nodi gwendidau difrifol o ran sut roedd rheolaethau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal, a arweiniodd at greu model gweithredu rhanbarthol newydd yn 2015. Eglurodd Neil fod Cymru, o dan y model hwn, wedi'i rhannu'n chwe rhanbarth, pob un dan arweiniad Swyddog Arweiniol Rhanbarthol ar Fwyd Anifeiliaid sy'n cydlynu arolygiadau ac yn sicrhau dull cyson sy'n seiliedig ar risg. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlinellu'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys prinder staff, gweithlu sy'n heneiddio, costau archwilio sy'n cynyddu, a chyllideb nad yw'n newid. Dywedodd Neil fod data'n dangos tueddiadau fel y gostyngiad yn nifer y busnesau bwyd anifeiliaid, gwahaniaethau mewn lefelau cydymffurfio rhwng ffermydd a safleoedd risg uwch, a sut mae newidiadau mewn canllawiau adrodd yn creu amrywiadau yn ystadegau cydymffurfio Cymru o gymharu â Lloegr. Nodwyd bod y system wedi gwella ond ei bod yn parhau i wynebu pwysau sylweddol sy'n effeithio ar gynnal rheolaethau bwyd anifeiliaid.

3.4 **Jacqui Thomas, Cyngor Sir Powys, a Gareth Walters, Cyngor Sir Fynwy** – Disgrifiodd y ddau sut mae timau rhanbarthol yng Nghymru yn helpu i gynnal archwiliadau a gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid, gan egluro rolau awdurdodau lleol, Swyddogion Arweiniol Rhanbarthol ar Fwyd Anifeiliaid (RLFOs), a'r strwythur llywodraethu ehangach. Roeddent yn amlinellu sut mae'r model rhanbarthol yn gweithio'n ymarferol, gyda phob rhanbarth yn cytuno ar raglen waith gyda'r ASB ac yn

adrodd ar gynnydd drwy ffurflenni chwarterol. Esboniodd y ddau sut mae'r swyddogion yn chwarae rhan allweddol drwy rannu arferion gorau, darparu hyfforddiant, cefnogi cysondeb, a helpu i ddatrys heriau gweithredol ledled Cymru. Roeddent yn tynnu sylw at gryfderau'r model – fel cydlynu gwell, prosesau cliriach, ac arbenigedd a rennir – a'r heriau parhaus, gan gynnwys cynnal data cywir, addasu i newidiadau rheoleiddiol, rheoli adnoddau, a chadw'r system yn gadarn mewn amgylchedd sy'n newid. Daeth y cyflwyniad i ben drwy egluro sut mae'r Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid yn goruchwylio'r gwaith o gynnal, yn monitro perfformiad, ac yn nodi gwelliannau, a thrwy nodi amcanion ar gyfer y dyfodol fel cryfhau'r model rhanbarthol, gwella'r defnydd o wybodaeth, a diweddaru'r Cod Ymarfer ar Fwyd Anifeiliaid.

3.5 **Simon Williams, AIC** – Esboniodd Simon sut mae'r AIC yn cefnogi diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid drwy ei gynlluniau sicrwydd masnach a'i drefniadau cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. Soniodd Simon am sut mae'r AIC yn rhedeg cynlluniau sicrwydd dan arweiniad y diwydiant sy'n ymdrin â deunyddiau bwyd anifeiliaid, cadwyni cyflenwi cnydau, a gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid, wedi'u hategu gan archwiliadau annibynnol a rheolau clir ar gyfer nodi a chywiro achosion o ddiffyg cydymffurfio. Gwnaeth amlinellu sut mae ardystio'n gweithio'n ymarferol – o gymhwyso ac archwilio i gamau cywiro a chymeradwyo – ac esbonio rolau cyrff ardystio ac archwilwyr hyfforddedig. Tynnodd sylw hefyd at raddfa ac effaith y cynlluniau hyn, gan ddangos darpariaeth uchel yn y farchnad, lefelau isel o ddigwyddiadau diogelwch bwyd anifeiliaid, a chydnabyddiaeth gref gan lywodraethau'r DU a chynlluniau'r UE. Fe ddangosodd sut mae sicrwydd yr AIC yn rhoi hyder bod busnesau bwyd anifeiliaid yn gweithredu'n ddiogel, yn gyfreithlon, ac yn gyson, gan leihau'r angen am archwiliadau rheoleiddio dyblyg ar yr un pryd.

3.6 **Trafodaeth y pwyllgor** – Roedd y cyfarfod yn tanlinellu pwysigrwydd bwyd anifeiliaid i gyflenwad bwyd Cymru, yr angen am safonau cyson ledled y DU, a'r pwysau parhaus ar systemau arolygu a rheoleiddio. Roedd hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd sylweddol ym maes arloesedd – fel protein pryfed a biodechnoleg – ac yn pwysleisio'r angen am gydweithio rhwng y llywodraeth, y diwydiant, a rheoleiddwyr i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd anifeiliaid yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Bu aelodau'r pwyllgor yn archwilio pynciau gan gynnwys y canlynol:

- A yw hysbysiadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnwys mewn hysbysiadau bwyd cenedlaethol
- Y potensial ar gyfer cynhwysion bwyd anifeiliaid mwy cynaliadwy
- Effaith oedi rheoleiddiol ledled y DU ar arloesedd

- Sut gall diwydiant, rheoleiddwyr, ac awdurdodau lleol gydweithio’n fwy effeithiol
- Pwysigrwydd safonau cyson ar draws gwledydd y DU

3.7. Gwnaeth cyfranogwyr ar-lein ofyn cwestiynau am oedi wrth gymeradwyo ychwanegion bwyd anifeiliaid, labelu bwyd anifeiliaid anwes, a’r posibilrwydd o ailddosbarthu rhai mathau o wastraff bwyd er mwyn gallu ffermio pryfed yn gynaliadwy.

## 4. Diweddariad y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi yn Belfast. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y bydd Lindsay Horth yn ymuno â’r pwyllgor o 1 Rhagfyr 2025 ymlaen.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 25/11/02)

5.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariad llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, adolygiad Llywodraeth Cymru o’r ASB yng Nghymru ac SPS.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Nododd yr aelodau y byddai’r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 5 Chwefror 2026.

Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben.